

Gwyddoniaeth

Ewch ar helpa bywyd gwyllt o amgylch eich gardd. Beth sydd i'w weld yno? Oes blodau? Coed? Trychfilod? Adar?

Tynnwch luniau o'r pethau welwch chi. Allwch chi greu collage o'r lluniau?

Beth am ddefnyddio'r wê i ddarganfod enwau'r pethau welwch chi.

Dylunio a Thechnoleg

Creu cartref ar gyfer trychfilod neu adar:

CAM 1 – Dylunio y cartref ar bapur gan ei labelu (pa ddeunyddiau ydych angen, unrhyw bethau arbennig yno).

CAM 2 – Creu'r cartref (e.e. bug hotel/blwch nythu/bwrdd adar...)

CAM 3 – Arfarnu. Beth oedd yn dda amdano? Oes rhywbeth fuasech yn newid? Pam?

Mathemateg

Allwch chi gasglu data am y tywydd a'i gofnodi mewn tabl? Gallwch ddefnyddio appiau megis BBC Weather i'ch helpu.

Defnyddiwch J2data / JIT i greu graff o'r:

- Tymheredd.
- Tywydd (haul/glaw...)
- Cyflymder y gwynt.

Neu beth am gyfri trychfilod yn yr ardd / adar sy'n dod i'r bwrdd adar a chreu graff i ddanaos faint welsoch chi.

Iaith

Ysgrifennwch stori gan ddefnyddio un o'r rhain fel sbardun i syniad:

- Mae cymeriad wedi mynd ar goll yn y goedwig / ar y mynydd...
- Rydych yn gweld olion traed diarth...

Iaith


Ymchwiliwch i sut mae natur wedi newid yn ystod y cyfnod yma e.e. geifr yn Llandudno, paun ym Mangor...

Beth am ysgrifennu erthygl papur newydd am y creaduriaid yma!

Thema: Natur

Celf

Mae'r artist Andy Goldsworthy yn defnyddio natur i greu ei waith celf. Edrychwch o amgylch eich gardd am bethau i greu gwaith yn ei arddull.



Neu beth am greu collage natur – dail, blodau...unrhyw beth welwch chi! Neu arlunio'r adar yn eich gardd!

Iechyd a Lles

- Pa ymarfer corff allwch chi wneud tu allan? Gyrrwch lun neu fideo i ni.
- Lawrlwythwch app loga Selog. Fedrwch chi roi cynnig ar siapiau mynydd, coeden, pili pala neu pry genwair? Beth am cath, lleud neu rheadr?

Gwyddoniaeth

Mae llawer o ddeunyddiau gwahanol o amgylch eich cartref a'r ardd.

Pa rai o'r rhain sy'n naturiol a pa rai sydd wedi eu gwneud gan ddyn?

Dewiswch ffordd o gofnodi a gyrrwch o atom!

Iaith

Dewiswch un o'r rhain a chreu taflen wybodaeth neu boster amdano gan gynnwys lluniau a ffeithiau yn eich geiriau eich hun.

- Anifail o'ch dewis.
- Y natur mewn gwlad o'ch dewis.
- Tywydd lleol neu mewn gwlad arall.

Dyma rai syniadau ar ein thema natur.

Oes gennych chi syniadau eraill?

COFIWCH YRRU EICH GWAITH ATOM AR GOOGLE CLASSROOM neu CLASS DOJO